Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

19 Rhagfyr 2022

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'AN INSPECTION OF VETTING, MISCONDUCT, AND MISOGYNY IN THE POLICE SERVICE'

Mae'r adroddiad cynhwysfawr hwn yn nodi'r canfyddiadau o arolygiadau thematig o heddluoedd, gan gynnwys Heddlu De Cymru. Ystyriodd arolygiad yr Arolygiaeth pa mor effeithiol y mae heddluoedd yn fetio eu swyddogion a'u staff, pa mor effeithiol maent yn diogelu'r wybodaeth a'r data a gedwir ganddynt a pha mor dda yr ymdrinnir â llygredd. Roedd yr arolygiad hefyd yn cynnwys asesiad o alluoedd heddluoedd i adnabod ymddygiad llabystaidd a rheibus ac ymdrin â hyn.

Mae derbyn gradd 'Da' yn ystod yr arolygiad fetio a llygredd yn galonogol iawn ac rwy'n gwybod ei fod o ganlyniad i lawer o ganolbwyntio a gwaith caled – nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod rhai agweddau ar weithdrefnau fetio Heddlu De Cymru wedi'u rhannu fel arferion gorau gan y Grŵp Cynghori Atal Llygredigaeth yr Heddlu Cenedlaethol.

Mae'r materion hyn yn bwysig iawn ac ni fyddant fyth yn diflannu'n llwyr, a dyna pam mae cyrraedd safon uchel yn hynod o bwysig ac o fudd i'r cyhoedd.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn credu nad oes lle i ni orffwys ar ein rhwyfau wrth fynd i'r afael â chamymddwyn a chasineb at fenywod er mwyn i'r gwaith a'r dyfalbarhad barhau, ond mae hefyd yn bwysig i'r cyhoedd glywed am y cynnydd cadarnhaol a'r perfformiad da sy'n cael ei gyflawni.Mae'r difrod a achosir gan y rhai sy'n camymddwyn o fewn gwasanaeth yr heddlu yn enfawr ac yn lleihau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y gwasanaeth cyfan, felly mae cael gwared ar y drwgweithredwyr sydd eisoes o fewn y sefydliad ac atal pobl o'r fath rhag ymuno yn y lle cyntaf yn hanfodol – a dyna pam mae cael arolygiad o'r gwaith hwn gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn ddefnyddiol tu hwnt.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Mae adroddiad o'r fath yn hynod o werthfawr i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan ei fod yn tynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella a'n galluogi i weithio gyda'r Prif Gwnstabl, ar ran y cyhoedd, i geisio sicrhau gwelliant parhaus er mwyn cyrraedd y safonau uchaf posibl. Mae'n ein galluogi i gydnabod cynnydd a llwyddiant er mwyn i ni roi darlun cytbwys i gymunedau ledled De Cymru sy'n dibynnu ar gael y gwasanaeth gorau posibl, ac o'r safon uchaf, gan yr heddlu.

Mae'r Prif Gwnstabl yn crynhoi ei farn am yr adroddiad fel a ganlyn:

'Fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, rwy'n hynod falch o'r diwylliant moesegol mae fy uwch-arweinwyr a'm huwch-swyddogion yn ei hyrwyddo a'i ddangos. Mae fy staff yn teimlo'n hyderus yn y gefnogaeth a gânt pan fydd angen iddynt herio neu roi gwybod am ymddygiad amhroffesiynol. Cydnabuwyd safon uchel ein hymddygiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn ei hadroddiad PEEL diweddar. Yn ogystal, o blith y 12 heddlu a arolygwyd yn ddiweddar mewn perthynas â'u dull fetio ac atal llygredd, roedd Heddlu De Cymru yn un o ddim ond dau heddlu a gafodd radd dda yn y maes hwn.

Fodd bynnag, rwyf wedi nodi'n glir na fyddaf yn goddef ymddygiad amhriodol ac nad oes lle i gasineb at fenywod, hiliaeth, nac unrhyw fath arall o wahaniaethu yng ngwasanaeth yr heddlu. Rhaid i'r cyhoedd allu ymddiried yn swyddogion a staff yr heddlu. Mae'r mwyafrif llethol o'r swyddogion a'r staff sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn ymddwyn yn berffaith ac yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r cyhoedd; mae'r nifer bychan iawn ohonynt sy'n dewis mynd yn groes i'r safonau a ddisgwylir ohonynt yn tanseilio'r holl waith yma ac yn difetha hyder y cyhoedd ynom.

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn arwain y maes plismona yn y DU ar nodi a mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle, gan annog dioddefwyr i ddod ymlaen i ddelio â'r ymddygiad hwn, a'r camddefnydd a wneir o'u swydd at ddibenion rhywiol. Mae'r sgwrs genedlaethol am ymddygiad yr heddlu yn un bwysig iawn ac rwy'n ymroi'n llwyr i sicrhau ein bod ni'n cynnal y safonau ymddygiad uchaf.'

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am ei sylwadau a'i ymrwymiad i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae'n amlwg bod unrhyw argymhellion yn angenrheidiol ac fe'u croesewir. Byddaf yn defnyddio fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd i olrhain cynnydd ar y mater hwn.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael JP OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English